# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 22AIN MAWRTH, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd 15/3/16)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**AELODAETH (15)**

### Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Annwen Daniels | Gweno Glyn |
| E. Selwyn Griffiths | Sian Gwenllian |
| Annwen Hughes | Charles Wyn Jones |
| Dilwyn Morgan | Michael Sol Owen |

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Lesley Day | Thomas G. Ellis |
| Jean Forsyth | Anne Lloyd Jones |

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Anwen J. Davies | Jason Humphreys |

### Llafur (1)

Y Cynghorydd Sion W. Jones

### Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 1 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2015, fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2015-16** 7 - 14

I ystyried adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017** 15 - 16

I ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni.

**7. TECHNOLEG GWYBODAETH I AELODAU ETHOLEDIG** 17 - 18

I ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni a'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth.

**8. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG** 19 - 20

I ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DYDD MAWRTH, 24 TACHWEDD 2015

**YN BRESENNOL:** Thomas G. Ellis (Cadeirydd)
Anne Lloyd Jones (Is-Gadeirydd)

**Y CYNGHORWYR:** Annwen Daniels, Gweno Glyn, E. Selwyn Griffiths, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Lesley Day, Jean Forsyth, Anwen J. Davies a Jason Humphreys

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Hughes a Sian Gwenllian, a Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Gofynnwyd i'r holl Aelodau ddatgan buddiant ar gyfer eitem 6, Ymgynghoriad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ond amlinellwyd nad oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2015 fel rhai cywir.

**5. Y PWYLLGOR SAFONAU - ADRODD AR FAES GWAITH Y PWYLLGOR**

a) Croesawyd Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, i'r Pwyllgor i gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau am 2014/15.

   Manylodd Dr Einir Young ar brif bwrpas a swyddogaethau'r pwyllgor o hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Cyfeiriodd at aelodaeth y pwyllgor a'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014/15. Ategodd eu bod yn mesur llwyddiant drwy anogaeth a hyfforddiant yn hytrach nag ymdrin â chwynion. Diolchodd i Gwilym Ellis Evans, fu'n Gadeirydd y Pwyllgor am 10 mlynedd, am ei waith diwyd a'i ymroddiad; i Sam Soysa, fu'n Is-gadeirydd, cyn i'w gyfnod ar y pwyllgor ddod i ben ac am gefnogaeth Ms Linda Byrne a fu'n aelod o'r Pwyllgor

Diolchodd hefyd i'r Swyddog Monitro a'r swyddogion eraill sy'n rhoi cefnogaeth i'r pwyllgor.

Diolchwyd i Dr Einir Young am gyflwyno'r adroddiad.

b) Ategodd y Cynghorydd Michael Sol Owen, oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Safonau, bod eu gwaith yn heriol ac yn gosod canllawiau da ar gyfer y Cyngor a Chynghorau Cymunedau.

c) Mewn ymateb i sylw ynglŷn â rhannu neges glir gyda chynghorau cymuned parthed 'datganiad o fuddiant', nodwyd bod cyfres o gyrsiau hyfforddiant wedi eu cynnal yn yr Hydref gyda chynghorau cymuned i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o ystyr y côd ymddygiad. Gwnaed sylw pellach bod cynghorau cymuned, yn eu cyfarfod blynyddol, yn derbyn y côd ymddygiad - cyfle blynyddol felly i'w hatgoffâ, ond amlwg nad ydy hyn yn ymarfer cyson.

d) O gofio rôl benodol y Pwyllgor o edrych ar  wasanaethau i aelodau, gofynnwyd a oedd mwy y gellid ei wneud o ran cefnogaeth i aelodau'r Cyngor yng nghyd destun ymddygiad, neu a oedd digon wedi ei wneud yn barod.

Mewn ymateb, amlygodd y Swydd Monitro ddau ddatblygiad diweddar
- Prawf Budd Cyhoeddus
- Y cysyniad o hawl i rwydd hynt i siarad mewn fforwm Gwleidyddol  lle gellid derbyn trafodaeth a beirniadaeth gadarn.

Nododd bod bwriad i gynnal gweithdy hyfforddiant yn y Gwanwyn i hyrwyddo'r datblygiadau hyn. O safbwynt gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y bwriad oedd amlygu rôl y Pwyllgor Safonau a chreu perthynas mwy amlwg gyda'r aelodau drwy godi ymwybyddiaeth o'r gwaith a chynnal rhaglen ymgysylltiol i rannu gwybodaeth i gadw'r côd yn fyw yn y meddwl.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cadeirydd a'r Pwyllgor am eu gwaith pwysig.**

## 6. YMGYNHGORIAD Y PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

a) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i ysgogi trafodaeth ar gynigion drafft  y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. O ran cefndir yr adroddiad, eglurwyd mai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Arianr sydd yn gyfrifol am bennu cyflogau a chostau sydd yn daladwy i gynghorwyr yn rhinwe eu dyletswyddau. Yn flynyddol, bydd y Panel yn cyhoeddi cynigion drafft ac yn ymgynghori arnynt, ond yn hanesyddol, nid oes llawer o destun trafod ar yr argymhellic gan ei fod yn cymryd agwedd gyffredin at y cyflogau a'r costau a delir i bob cynghorydc Ategwyd bod angen sylw pellach i rai o'r cynigion eleni, a thynnwyd sylw at yr awgrymiadau hynny yn yr adroddiad - y peth sylfaenol oedd na fydd cynnydd yn y cyflc sylfaenol.

b) O ran y newidiadau eraill, nodwyd eu bod yn amrywio  o ran barn, ond bod angen trafodaeth ynglŷn ag awgrym o gyflwyno dwy haen i'r  Cabinet; awgrym o ddwy haen  i gadeiryddion Pwyllgorau ac awgrym bod arweinydd yr wrthblaid fwyaf i'w osod yr un lefel o ail haen y cadeiryddion.

c) Nodwyd eleni, mai un peth oedd wedi achosi pryder, a bod Cymdeithas Llywodraeth Le Cymru wedi tynnu sylw ato, yw bod Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi

ysgrifennu at y Panel yn tynnu sylw at yr angen i gadw llygad a lleihau gwariant cyhoeddus. Ategwyd anfodlonrwydd Cymdeithas Llywodraeth Leol tuag at hyn a dadleuwyd y byddai'n ymddangos bod ymyrraeth wleidyddol ar y penderfyniad. Cydnabuwyd y llythyr, ond gwneud penderfyniad ar sail tystiolaeth fydd y Panel.

d) Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Awgrymwyd bod y drefn bresennol yn dderbyniol
- Derbyn bod cyfrifoldeb cadeiryddion yn amrywio o ran amlder cyfarfodydd ac felly ystyriwyd bod cynnig y Panel yn un rhesymol
- Y dylid ceisio cydnabyddiaeth i Is Gadeirydd sydd yn sefyll i mewn dros y Cadeirydd am gyfnod

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac awdurdodi'r swyddogion i gyfleu'r sylwadau yn yr adroddiad i'r Panel**

**7. E-BYST CYNGHORWYR**

a) Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn argymell y Pwyllgor i gadarnhau'r weledigaeth a'r penderfyniad gwreiddiol o ddefnydd e-byst Cynghorwyr. Atgoffwyd yr aelodau bod y weledigaeth honno wedi cael ei mabwysiadau gan Bwrdd y Cyngor 27.3.2012 lle penderfynwyd ei bod yn orfodol i Aelod Etholedig dderbyn a defnyddio e-bost corfforaethol y Cyngor. Cyfeiriwyd at y rhesymau dros ddefnyddio cyfeiriad corfforaethol yn hytrach na chyfeiriad e-bost personol. Amlinellwyd mai'r defnydd o dechnoleg electroneg yw prif ddull gohebu gydag Aelodau - yn rhan o frand y Cyngor ac yn gyfle i Aelodau Etholedig weithredu dan yr un faner a staff y Cyngor.

b) Nodwyd yn ddiweddar bod ambell Aelod wedi gwneud cais i dderbyn gohebiaeth drwy gyfeiriadau e-bost personol ac nad oedd hyn wedi ei ganiatau hyd yma (yn bennaf oherwydd nad oedd unrhyw sicrwydd o ddiogelwch gyda defnydd e-bost personol). Ategwyd hefyd, bod cyfrif e-byst corfforaethol y Cynghorwyr yn cau os na fydd yr aelod wedi ei ddefnyddio o fewn 12 mis.

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut mae cysylltu gydag aelod sydd ddim yn defnyddio e-byst, eglurwyd bod y rhai hynny sydd wedi ein hysbysu o'u penderfyniad yn derbyn pob dim drwy lythyr / copi papur. Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae cyfrifon ebyst aelodau wedi eu cau yn awtomatig gan nad ydynt wedi eu defnyddio am gyfnod o dros 12 mis, ac nid oedd yr Adran yn ymwybodol o'r diffyg defnydd, ac felly nad oedd aelodau yn derbyn gohebiaeth o gwbl. Mewn ymateb pellach at newidiadau a chyfyngiadau diweddar o ran defnydd e-byst ar gyfrifiadur personol, nodwyd bod nodyn wedi ei yrru i bob aelod trwy Rhaeadr i gyfarch hyn a bod yr Adran Technoleg wedi ymateb yn hwylus ac effeithiol. Yng nghyd destun cael mynediad at e-byst o ffôn symudol, nodwyd bod yr Adran Dechnoleg yn gweithio ar declyn all alluogi hyn (diweddariad i'w gyflwyno ym mis Chwefror).

d) Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- pryder nad oedd rhai Aelodau yn defnyddio cyfrif e-bost y Cyngor
- anodd deall sut mae Cynghorydd yn gwneud ei gwaith yn effeithiol heb ddefnyddio / derbyn gwybodaeth drwy e-byst
- cyfrif e-bost corfforaethol yn sicrhau cyfathrebu teg a chywir
- derbyn bod fframwaith cadarn a diogel yn ei lle

**PENDERFYNWYD cadarnhau eto benderfyniad gwreiddiol y Cyngor ynghylch gweledigaeth a chyfeiriadau e-bost swyddogol y Cynghorwyr:**

- **pwysleisio wrth y nifer fechan hynny sydd ddim yn defnyddio eu cyfrif e-bost corfforaethol y dylid gwneud hynny ac**
- **annog y rhai hynny sydd wedi penderfynu peidio defnyddio'r dechnoleg i ail ystyried eu penderfyniad.**

## 8. GWE-DDARLLEDU

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i rannu gwybodaeth ar y defnydd o'r system we-ddarlledu sydd bellach wedi bod yn weithredol ers 2015. Nodwyd bod y Cyngor bellach wedi gwe ddarlledu 23 o gyfarfodydd gyda chyfanswm nifer y gwylwyr oddeutu 3400.

Adroddwyd ei bod yn briodol bellach i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor am barhau gyda'r drefn o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Nodwyd bod y niferoedd gwylio yn gymharol fach o gymharu gyda chynghorau eraill a bod gwahaniaethau amlwg rhwng Cyfarfodydd. Ymddengys hefyd, wrth ddadansoddi'r ffigyrau fesul cyfarfod, mai'r 'pwnc' sydd yn gyrru'r gwylio ac felly, os am barhau, bod llawer eto y gellid ei wneud i godi ymwybyddiaeth a chynyddu diddordeb.

Ategwyd mai arian grant sydd wedi bod yn cyfarch cost y system hyd yma a bod y grant yn dirwyn i ben. Yn dilyn arolwg diweddar, nodwyd bod rhai cynghorau wedi amlygu gwahaniaeth barn ynglŷn â pharhau gyda'r ddarpariaeth a hyn oherwydd cyfnod lle mae toriadau mewn gwasanaethau yn bwnc dadleuol. Yng Ngwynedd, amlygwyd bod cyfle i geisio gwella'r cyswllt rhwng y ddarpariaeth fideo gynadleddau ar gallu i fynychu o bell i arbed costau i'r Cyngor drwy ail gyfeirio adnoddau presennol i barhau gyda'r gwasanaeth gwe-ddarlledu.

b) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chost y system, nodwyd mai un cwmni sydd yn gwasanaethu'r mwyafrif o Gynghorau a bod modd negodi pris am eu gwasanaeth.

c) Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- cefnogi'r angen i barhau ond pryder am y gost
- angen codi ymwybyddiaeth a diddordeb
- Megis dechrau mae'r broses ac felly cynnig buddsoddiad pellach am flwyddyn arall o leiaf

**PENDERFYNWYD parhau gyda System Gwe-ddarlledu y Cyngor gan negodi pris o ran costau a chynnal trafodaethau pellach ar sut i gynyddu'r diddordeb.**

## 9. ADRODDIADAU BLYNYDDOL 2014 / 2015

a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn diweddaru'r aelodau ar y nifer o adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd yn 2014/2015 ynghyd a chais am sylwadau i hwyluso trefniadau ar gyfer 2015/2016.

Amlygwyd bod y nifer o Aelodau etholedig sydd wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda 39 wedi cwblhau eleni.

b) Mewn ymateb i'r adroddiad nodwyd bod angen sicrhau mai adroddiad ffeithiol yw'r adroddiad am y Cynghorydd. I sicrhau hyn rhaid cadw at y canllawiau cyfreithiol er mwyn osgoi'r posibilrwydd o orfod golygu'r hyn gall ei gynnwys a'r hyn y dylid ei adael allan. Cynigiwyd hefyd y dylid dosbarthu'r canllawiau gyda'r templed er mwyn

hwyluso'r drefn. Ategwyd, er y gall adroddiad ymddangos yn ddi fflach, cyhoeddiad y Cyngor ydyw o waith y Cynghorydd ac nad oed unrhyw beth yn rhwystro cynghorydd rhag cyhoeddi adroddiad eu hun, ar gyfryngau cymdeithasol eraill er enghraifft.

c) Sylwadau yn codi o'r drafodaeth
   - angen gosod mwy o gyd- destun
   - angen ail edrych ar y  canrannau presenoldeb
   - cynnig gosod niferoedd cyfarfodydd mewn blwyddyn v presenoldeb
   - a oes sylwadau / ymateb  wedi eu derbyn gan y cyhoedd
   - a oes modd cynnwys rhesymau dros absenoldeb?

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd nad oedd ymateb gan y cyhoedd wedi ei dderbyn ond bod posib gwneud ymholiadau pellach. O ran presenoldeb, amlygwyd y bydd system *Mod Gov* hefyd yn cofnodi canrannau presenoldeb fydd yn cael eu cyhoeddi ar y wefan - bydd modd caniatáu cynnwys rhesymau dros absenoldeb ar y templed ond nid ar y system *Mod Gov*.

**PENDERFYNWYD diwygio'r templed i gyfarch y sylwadau uchod ynghyd a dosbarthu'r canllawiau gyda'r templed.**

## 10. ADRODDIAD DIWEDDARU IS-GRWP AMRYWIAETH

a) Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd yr  Is-grŵp Amrywiaeth ar waith diweddar  yr is-grŵp ynghyd a'r wybodaeth y maent wedi ei gasglu i lunio rhaglen waith. Atgoffwyd yr aelodau bod yr Is-grŵp wedi ei sefydlu ym mis Chwefror 2015 mewn ymateb i adroddiad cenedlaethol ac arweiniad yn Neddf Llywodraeth Leol 2012 i geisio cynnydd amrywiaeth mewn llywodraeth Leol.

b) Nodwyd bod yr is-grŵp wedi bod yn edrych ar sefyllfa gyfredol Gwynedd o gymharu proffiliau Aelodau etholedig Gwynedd gyda phroffiliau  trigolion y Sir - edrychwyd ar ystadegau yn ymwneud ag oedran, rhyw, cefndir ethnig ac anabledd. Yn dilyn dadansoddiad o'r sefyllfa lluniwyd rhaglen waith er mwyn ceisio gwahaniaeth ar gyfer Etholiad 2017.

c) Trafodwyd y rhaglen waith fesul pennawd.

d) Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

   - Cyfle yma i hybu / annog /rhannu gwybodaeth / hyfforddi ieuenctid y Sir drwy Glybiau Ieuenctid, Clybiau Ffermwyr Ifanc ayyb
   - Angen hybu ymarfer da
   - Cyflwyno pobl drwy faterion penodol i annog diddordeb
   - Awgrym  i annog ymweliadau â Phwyllgorau / gwylio gweddarllediad
   - Cyngor Ysgolion - derbyn eu bod yn bwysig ond angen cynyddu eu dealltwriaeth o Ddemocratiaeth
   - Annog cyflogwyr i fod yn hyblyg i ryddhau unigolion sydd yn ystyried gyrfa mewn gwleidyddiaeth
   - Awgrym i ystyried cyfarfodydd gyda'r nos
   - Awgrym i gynnig hyfforddiant i rai sydd yn ystyried bod yn gynghorydd

e) Mewn ymateb, nodwyd bod y Llywodraeth wedi adnabod rhwystr o ran hyblygrwydd gan gyflogwyr ac yng nghyd desun cyfarfodydd gyda'r nos, bydd y Cyngor yn ymgynghori ar hyn yn flynyddol.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig**

## 11. SIARTER AELODAU - SWYDD DDISGRIFIADAU

a) Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi diweddariad ar gyfer ennill Siarter Aelodau i Gyngor Gwynedd. Argymhellwyd y dylid gweithredu mewn dau gam. Y cam cyntaf fydd i swyddogion sicrhau eglurder o'r sefyllfa gyfredol ac yn ail i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sefydlu grŵp bychan o Gynghorwyr i edrych ar y gwaith o ennill y Siarter i Gyngor Gwynedd, gan gychwyn gyda'r gwaith ar y swydd ddisgrifiadau.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad gan awgrymu y dylid parhau i geisio ennill Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.00 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 22 Mawrth 2016 |
| PWNC | Adroddiad blynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt cefnogaeth i aelodau |
| PWRPAS | Cyflwyno drafft o'r adroddiad fydd i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2016 yn rhoi diweddariad i aelodau ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael a'r datblygiadau sydd wedi'u gwireddu a'r rhai sydd ar waith. |
| AWDURON | Y Cynghorydd Tom Ellis,<br>Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| SWYDDOG PERTHNASOL | Geraint Owen,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |

1. Cyflwynir isod ddrafft o'r adroddiad a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 12 Mai 2016 yn cyflwyno diweddariad o'r gefnogaeth sydd ar gael a'r datblygadau sydd wedi eu gwireddu neu ar y gweill. Fe welwch o'r drafft fod rhai darnau heb eu drafftio yn derfynol gan y bydd angen eu diweddaru yn sgil trafodaethau a gynhelir yn y pwyllgor heddiw, 22/03/2016.

2. Dan y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am faterion penodol (dan Adran 11), fel a ganlyn:
   - Cyflawni rôl yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
   - Adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael yng nghyswllt staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau eu body n ddigonol ar gyfer gofynion y rôl
   - Cynhyrchu adroddiad, o leiaf bob blwyddyn, i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt yr uchod.

3. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 14 Mai 2015 cyflwynwyd yr ardoddiad diwethaf i'r Cyngor Llawn yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (Geraint Owen) a'r aelodau etholedig, gan gynnwys gwybodaeth am y gefnogaeth oedd yn cael ei ddatblygu.

4. Mae ymgynghori cyson yn digwydd gydag aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y gefnogaeth a gynnigir i Aelodau etholedig, ac, fel cynrychiolwyr eu cyd-aelodau, rydym yn dilyn yr arweiniad a roddir ganddynt. Eleni, er mwyn sicrhau cyfle i'r holl aelodau fynegi barn, penderfynwyd ymgynghori, ar ffurf holiadur ar-lein, gyda'r holl aelodau etholedig i geisio eu barn ar y gefnogaeth a gynnigir, gan ofyn am sylwadau adeiladol i wella'r gefnogaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

5. Yn yr adroddiad terfynol byddwn yn adrodd ar ganlyniad yr ymgynghoriad o ran nifer ymatebwyr a'r prif negeseuon.

6. Cyflwynir isod ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol yng nghyswllt y gefnogaeth i'r Aelodau.

**A. Cefnogi Cyfathrebu effeithiol?**

1. **Gwybodaeth / Gweithdai/ Ymgynghori –** Cynhaliwyd nifer o weithdai ar gyfer Aelodau Etholedig unwaith eto eleni, gyda'r prif ffocws yn y flwyddyn anodd hon yn mynd ar Her Gwynedd. Cynhaliwyd nifer o weithdai craffu i'r holl aelodau dan arweiniad y Prif Weithredwr er mwyn sicrhau lefel arwyddocaol o ddealltwriaeth ar y materion yn ymwneud â'r Strategaeth Ariannol a'r torriadau fel bo Aelodau wedi eu harfogi i allu esbonio materion i'w etholwyr. Profodd y gweithdai yn bwysig er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r materion gerbron cyn i'r Cyngor llawn drafod y mater ym mis Mawrth. Dylid nodi fod y gweithdai wedi eu cynnig mewn amrywiol leoliadau ar amrywiol amseroedd mewn ymateb i sylwadau a dderbyniwyd gan aelodau yn y gorffenol ynghylch her sydd gaen aelodau sy'n gweithio i fynychu digwyddiadau o'r fath. Mae adborth anffurfiol sydd wedi ei dderbyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda gwaith yn mynd rhagddo yn awr i allu dysgu gwersi o'r ymgysylltu a wnaethpwyd gyda'r aelodau a phobl Gwynedd ar gyfer y dyfodol.

2. **Pencampwyr** – Mae rôl y Pencampwyr yng Ngwynedd yn cefnogi a chynghori yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb penodol am y maes yn parhau i ddatblygu. Mae'r isod wedi eu penodi:

| | |
|---|---|
| • Pobl Hŷn | Selwyn Griffith |
| • Gofalwyr | Eryl Jones-Williams |
| • Awtistiaeth | Elin Walker Jones |
| • Datblygu Aelodau | Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| • Craffu | Cadeirydd y Fforwm Craffu |
| • Anabledd | Peter Read |
| • Yr Iaith Gymraeg | Craig ab Iago |
| • Llais Plant a Phobl Ifanc | Annwen Daniels |
| • Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Gwen Griffith |
| • Masnach Deg | R Hefin Williams |
| • Bioamrywiaeth | Angela Russell |
| • Iechyd Meddwl | Beth Lawton |
| • Cynaliadwyedd | Aled Evans |
| • Busnesau Bach | Sian Gwenllian |

3. **Fforymau Ardal –** Mae'r Fforymau ardal yn parhau i gael eu cynnal yn y pedair ardal, sef Bangor/Ogwen, Gwyrfai, Dwyfor (Pwyllgor Ardal) a Meirionnydd. Yn gyffredinol, fe ystyrir nifer ohonynt yn llwyddiannus, ond mae'r llwyddiant a mewnbwn yr aelodau yn amrywio o ardal i ardal.

4. **Gwybodaeth a Chyfathrebu Electroneg** – Mae gwybodaeth a chyfathrebu yn electroneg wedi bod yn un o'r prif faterion y mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ei drafod ers ei sefydlu. Yn sgil cais gan yr aelodau cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant pellach i'r

rhai oedd yn dymuno uchafu eu sgiliau a'u defnydd o'r iPad. Pwysleiswyd rôl i'r aelodau oedd yn mynychu'r hyfforddiant pellach i fod yn rhannu'r wybodaeth ac yn mentora eu cyd-aelodau, gan fod rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth o sut i ddefnyddio'r llechen yn y ffordd yma yn fwy effeithiol yn aml na sesiynau hyfforddiant penodol. Yn gyffredinol, mae'r sesiynau wedi bod yn llwyddiannus, gyda nifer wedi codi eu hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r llechen, gyda rhai hyd yn oed yn ei ddefnyddio i greu cardiau Nadolig electroneg!

Efallai y bydd diweddariad am y sefyllfa o dderbyn negeseuon ebost swyddogol i ffonau Symudol yn cael ei gynnwys yma, yn ddibynnol ar y trafodaethau yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 22/03/2016.

Ar y llaw arall, fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn fod y niferoedd sy'n gofyn am gopiau papur o bapurau pwyllgor wedi cynyddu. Yn ogystal, ac yn fwy pryderus, daeth i'r amlwg fod nifer o aelodau sydd â darpariaeth llechen, heb fod yn ei ddefnyddio ar gyfer derbyn gohebiaeth electroneg, ac oherwydd diffyg defnydd ar eu cyfrif ebost swyddogol, fod y cyfrif wedi ei gau yn awtomatig. Penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2015 ei fod yn parhau i gefnogi uchelgais wreiddiol y Cyngor i gyfathrebu yn electroneg gydag aelodau, a hynny drwy gyfeiriad ebost swyddogol y Cyngor.

Mae rhai wedi wynebu problemau wrth newid eu cyfrinair ac yn y blaen, ond wrth gysylltu a'r ddesg gymorth TG mae hynny wedi ei ddatrys yn hwylus iddynt. Os yw aeldau yn cael anhawster, yna dylid cysylltu â'r Ddesg Gymorth TG ar 01286 679 114 am gymorth.

Yn ogystal, mae gwaith wedi cychwyn eisoes ar ddechrau adnabod cyfarpar electroneg addas ar gyfer ateb gofynion y Cyngor ac Aelodau etholedig ar gyfer y cyfnod yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Er ei fod yn teimlo yn bell i ffwrdd, mae angen cychwyn cynllunio yn awr i sicrhau yr ateb mwyaf addas.

5. **Modern.Gov** - Datblygiad a ddaeth i gynorthwyo Aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn yw Modern.Gov. System yw ar gyfer hwyluso mynediad aelodau at ddogfennau pwyllgorau, fel bo'r papurau pwyllgorau perthnasol yn cyrraedd y llechen yn awtomatig heb i'r aelodau orfod chwilio am linc ebost i lawr-lwytho dogfennau ac yn y blaen. Gellir gwneud hyn i gyd drwy gyfrwng yr app. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant i aelodau ym mis Tachwedd 2015 gydag oddeutu hanner yr aelodau yn bresenol. Daeth i'n sylw fod rhai aelodau ddim yn defnyddio Modern.Gov ac felly bu swyddogion wedyn yn ceisio cynorthwyo aelodau er mwyn hybu defnydd.

Mae nifer fawr o aelodau wedi datgan eu bod yn ystyried y safle we ar ei newydd wedd yn llawer iawn gwell, ac yn fwy hwylus i bobl Gwynedd sicrhau mynediad a gwybodaeth am eu haelod etholedig lleol. Mae'r tudalennau fesul aelod etholedig wedi derbyn canmoliaeth. Noder fod gwybodaeth am bresenoldeb aelodau bellach yn cael ei gyhoeddi yn awtomatig ar y tudalennau hyn, ac mae'r wybodaeth yn cael ei ddiweddaru yn gyson. Noder ein bod yn datblygu'r safle, ac y byddwn yn ychwanegu mwy a mwy o wybodaeth am wahanol bwyllgorau wrth i amser fynd rhagddo. Mae pryder am bresenoldeb (helblaw am mewn achlysuron o salwch/ salwch tymor hir) wedi bod yn destun trafod mewn nifer o wahanol

fforymau, ac mae Arweinwyr yr holl grwpiau gwleidyddol yn derbyn gwybodaeth pan fod aelod heb bresenoli am gyfnod penodol.

6. **Bwletinau Gwybodaeth – *Rhaeadr* –** Sefydlwyd R*haeadr* yn wreiddiol mewn ymateb i gais gan aelodau i dderbyn eu holl wybodaeth yn amserol a chyflym, trwy ddull electroneg ac o un porth gwybodaeth (yn lle ebyst gan bawb a phopeth).

   Mae'r erthyglau a gyflwynir yn R*haeadr* yn cynnwys gwybodaeth am beth mae'r Cabinet ac aelodau'r Cabinet yn ei wneud, materion cefnogi aelodau, beth sy'n digwydd yn ehangach o fewn y Cyngor (newyddion diweddaraf, datganiadau i'r Wasg) a mateiron o fewn wardiau (gwaith ffordd, gwaredu eiddo, materion cynllunio ayyb). Yn yr adroddiad terfynol byddwn yn adrodd ar y ffigurau o ran
   - XXX o erthyglau (ar gyfartaledd xx o erthyglau y mis) wedi eu cyhoeddi,
   - gyda xxxx o ymweliadau fesul mis i'r safle.

   Ym mis Chwefror eleni cynhaliwyd arolwg o'r holl aelodau i geisio barn ynghylch sut i fynd at i wella *Rhaeadr* ac i geisio eglurder ynghylch faint o aelodau oedd yn edrych ar *Rhaeadr* a'r rhesymau nad oedd eraill yn ei ddefnyddio. Yn ogystal, cynhaliwyd sesiwn byr ar ddiwedd cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i rannu rhai syniadau am welliannau. Yn yr adroddid terfynol byddwn yn adrodd ar y prif negeseuon o'r arolwg ynghŷd ag unrhyw welliannau.

7. **Adroddiadau Aelodau Cabinet i'r Cyngor –** Mae'n fwriad ail gychwyn ar y drefn o gael aelod unigol o'r Cabinet yn adrodd ar elfen o'i (g)waith lle bo cyfle i wneud hynny yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn, gyda chyfle am gwestiynnau i ddilyn. Bydd ffocws yr adroddiadau ar wireddu canlyniadau i bobl Gwynedd.

8. **Y berthynas rhwng Craffu a'r Cabinet –** Mae'r berthynas rhwng Craffu a'r Cabinet yn parhau i ddatblygu, gyda'r holl aelodau yn cyd-weld fod angen parch a chydweithio er mwyn cyflawni y gorau ar gyfer trigolion Gwynedd. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion Craffu a'r Cabinet i drafod yn agored ac adeiladol y gwersi a ddysgwyd hyd yma, a chynydd i'r dyfodol. Eisoes mae gogwydd Craffu wedi newid rhywfaint, gyda nifer o eitemau wedi eu craffu eleni cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Cabinet.

   Yn ogystal, mae trefniant ffurfiol yn bodoli bellach lle mae Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet er mwyn cyflwyno eu argymhellion yn ffurfiol i'r Cabinet. Bydd yr Aelod Cabinet wedyn yn unai derbyn , neu wrthod yr argymhellion gan nodi eu rheswm. Mae hyn yn creu tryloywder yn y trefniadau rhwng craffu a'r cabinet, gan sicrhau dilyniant i eitemau. Yn yr adroddiad terfynol byddwn yn cynnwys gwybodaeth am yr adolygiad cyfredol o'r drefn Craffu a'r casgliadau yn deillio o hynny – gweler 15 isod.

9. **Gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor**
   Mae'r Cyngor yn gwe-ddarlledu rhai o brif gyfarfodydd y Cyngor ers Ionawr 2015, a hynny mewn ymgais i hyrwyddo a chynyddu atebolrwydd democrataidd ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cyngor. Mae'r ffigurau gwylio wedi codi dros y 18 mis diwethaf, wrth i

DRAFT

fwy a mwy o drigolion Gwynedd ddod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth yn dilyn hysbysiadau yn y papurau newydd ac ar trydar a facebook y Cyngor. Yn amlwg, mae'r ffigurau gwylio yn amrywio o bwyllgor i bwyllgor, ac mae'n ymddangos fod nifer yn gwneud defnydd o'r archif yn hytrach na'r gwe-ddarllediad byw.

Mae'n agosau at ddiwedd cytundeb y Cyngor gyda'r cwmni gwe-ddarlledu cyfredol, ond yn ysbryd hybu democratiaeth a thryloywder, mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn awyddus i'r gwasanaeth barhau, yn arbennig yng ngholeuni yr ymgynghoriad diweddar ar Fesur llywodraeth leol fydd yn annog mwy o we-ddarlledu.

Gellir gwylio'r gwe-ddarllediadau trwy'r ddolen isod:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Cynghorwyr-a-phwyllgorau.aspx

10. **Mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor** – Mae aelodau'r Cyngor eisoes yn gyfarwydd iawn gyda chynnal cyfarfodydd anffurfiol trwy gyfrwng fideo-gynhadledd, ac mae'r arfer yma wedi gweithio yn hwylus iawn dros y blynyddoedd er mwyn hwyluso aelodau rhag gorfod teithio i'r Pencadlys yn barhaus. Eleni, cynhaliwyd peilot o gynnal Pwyllgor ffurfiol trwy fideo-gynhadledd rhwng Siambr Hywel Dda, ac ystafelloedd fideo-gynhadledd Pwllheli a Dolgellau. Bu'r ymarferiad yn llwyddiant, ac fe adnabuwyd gwersi i'w dysgu hefyd. Byddwn yn parhau i geisio datblygu mynediad o bell yn ystod y flwyddyn nesaf.

**B. Cefnogaeth i aelodau etholedig gynnal eu dyletswyddau penodol**

11. **Cyfweliadau Datblygiad Personol –** Cyfle i aelodu (nad ydynt yn Aelodau Cabinet) asesu eu anghenion datblygu unigol trwy sgwrs gyfrinachol yw'r Cyfweliadau Datblygiad Personol, gydag allbwn y sgyrsiau yn gyfle i ddylanwadu ar liwio rhaglen hyfforddiant y Cyngor i Aelodau neu i drefnu digwyddiadau i'r unigolyn o ran hyfforddiant. . Cyfarchwyd nifer o'r themâu a gododd yn y gorffenol yn y rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2015/16, a bu'r cyfweliadau hefyd yn fodd o godi ymwybyddiaeth am rai o'r cyrsiau sy'n bodoli eisoes.

    Rhoddwyd cyfle i Aelodau etholedig fanteisio ar gyfweliadau/ sgyrsiau o'r fath unwaith eto eleni, a gyrrwyd gwahoddiadau trwy *Rhaeadr* ar fwy nag un achlysur. Yn anffodus, isel iawn oedd y gofyn eleni.

12. **Datblygiadau yn yr ardal lleol neu ar faterion penodol (ymholiadau neu gwynion) –** Fe welwyd eleni fod Aelodau Cabinet a swyddogion wedi cadw at eu gair trwy gynnwys yr holl aelodau lleol mewn trafodaethau yn fuan. Bu ymrwymiad hefyd gan aelodau unigol i barchu ymddiriediaeth a chyfrinachedd hyd bod cynigion newid yn aeddfed i'w cyhoeddi ac ymgynghori arnynt.

    Trefniadau cyswllt gweithredol – Rydym yn llawn ymwybodol fod cryn rwystrediagaeth gan aelodau ynghylch pwy y dylid cysylltu â hwy, ac rydym wrthi yn datblygu taflen 'cyswllt' ar hyn o bryd. Dylai aelodau gysylltu trwy Galw Gwynedd oherwydd effeithlonrwydd Galw

Gwynedd yn tracio ymholiadau. Petae ymholiad neu gwyn penodol, parheir i annog aelodau i geisio cysylltu â'r gwasanaeth penodol yn y lle cyntaf i gael ymateb i ymholiad, ac os nad yw'r ateb a ddarperir yn ddigonol, dylid cyfeirio'r mater penodol at sylw'r Aelod Cabinet perthnasol. Parheir i annog Aelodau i ddefnyddio'r systemau priodol sydd ar gael iddynt.

13. **Hawliau Aelod Unigol mewn cyfarfodydd Cabinet** – Gwahoddir yr aelod lleol i fod yn bresennol os yw mater lleol yn codi. Cyfrifoldeb swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yw adnabod aelodau lleol ar gyfer eitemau lleol, a chyfrifoldeb yr aelod lleol yw sicrhau ei fod/ei bod yn ymwybodol o gynnwys rhaglen y Cabinet.

14. **Hyrwyddo rôl y Cynghorydd (wrth baratoi am etholiadau Mai 2017) –** Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, yn nodi bod diffyg amrywiaeth ymhlith ymgeiswydd Llywodraeth Leol, yn arbennig yn nhermau pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a merched. Tra bo gwaith cendlaethol yn mynd rhagddo, mae grŵp bychan o aelodau wedi bod yn gweithio ar ddeall beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd, codi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd i ddemocratiaeth a beth mae'r Cyngor yn ei wneud a pha gyfleoedd sydd i gymeryd rhan, yn y gobaith o annog mwy o drigolion o wahanol gefndiroedd (pobl ifanc a merched yn benodol) i sefyll yn etholiadau Llywodrath Leol Mai 2017. Maent hefyd wrthi'n ceisio adnabod y rhwystrau gan sefydlu rhaglen waith i ymteb i hynny. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r gwaith hwn, gyda'r prosiect wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2016-2020.

    Paratoi at etholiadau Mai 2017 – Mae rhan o'r gwaith uchod hefyd yn cwmpasu dechrau paratoi at etholiadau Llywodraeth Leol a gynhelir ym mis Mai 2017. Wedi gwrando ar sylwadau nifer o aelodau etholedig sydd wedi ymuno â'r Cyngor ers mis Mai 2012, neges glir sydd i'w chlywed yw fod nifer wedi nodi nad oeddent yn llawn ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl yn dilyn llwyddiant wrth gael eu hethol. I ymateb i'r sylwadau hyn, mae gwaith ar y gweill i

    a) Ddatblygu sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer rhai sydd yn rhoi eu henwau ymlaen i SEFYLL yn yr etholiadau ym Mai 2017. Bydd hyn yn gyfle i ddarpar aelodau ystyried a deall y sefyllfa cyn iddynt gael eu hethol – gan geisio sicrhau gwell eglurder o'r cyfleon iddynt, y gofynion arnynt, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn dilyn etholiad llwyddiannus.
    b) Ystyried rhaglen anwytho Aelodau etholedig yn dilyn etholiad Mai 2017. Unwaith eto yn mae sylwadau wedi ein cyrraedd am y sesiynau a gynhaliwyd yn ol yn 2012, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio y sesiynau anwytho a hyfforddiant dilynol yn synhwyrol a rhesymol gan ystyried sylwadau a dderbyniwyd ag ymgynghori gydag aelodau presenol .
    c) Cyfarpar electroneg. Yn yr un modd mae angen cychwyn ystyried yn awr beth yw/ fydd angehenion aelodau etholedig a'r Cyngor i'r dyfodol, gan ddechrau paratoi ac ystyried beth yw'r cyfarpar mwyaf addas i'w gynnig i aelodau yn dilyn etholiadau Mai 2017.

C. **Cefnogaeth i aelodau craffu a phwyllgorau eraill**

15. **Adolygiad o drefniadau Craffu Gwynedd** – fel sy'n cael ei adrodd i'r Cyngor llawn mewn adroddiad ar wahan heddiw, mae adolygiad o drefniadau craffu y Cyngor wedi eu gwneud, a chyflwynir argymhellion i'r Cyngor llawn heddiw.

    Cynhaliwyd hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion craffu yn ystod 2015/16 a fu'n llwyddiannus iawn. Y bwriad yn awr yw ymestyn yr hyfforddiant i'r holl aelodau fel bo cyd-ddealltwriaeth o bwrpas a threfniadau craffu ar eu newydd wedd ymgysg yr holl aelodau.

16. **Gweinyddu a chofnodi cyfarfodydd a chyhoddi'r cofnodion (holl bwyllgorau)** – Mae'r Tim Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu rhaglenni a llunio cofnodion o waith dros 40 o wahanol endydau pwyllgorau gan eu cyhoddi ar safle we'r Cyngor yn ddwy-ieithog. Rydym yn parhau i adolygu y gwaith yn gyson gan geisio ymgyrraedd at eglurder yn y cofnodion yn barhaus. Mae cryn waith wedi ei wneud gyda Chadeiryddion y gwahanol Bwyllgorau i grynhoi penderfyniadau/ argymhellion ar ddiwedd pob eitem er mwyn sicrhau eglurder ymysg yr aelodau sy'n bresenol.

17. **Ymchwiliadau Craffu** – ymchwilio i wir effaith gwahanol bolisiau ar drigolion Gwynedd yw pwrpas ymchwiliadau craffu, gan edrych fesul maes mewn mwy o fanylder nag y gellid gwneud i eitem mewn Pwyllgor. Gyda chriw bychan o aelodau fesul ymchwiliad, ynghŷd â chefnogaeth gan swyddogion ag arbenigedd mewn meysydd penodol a chefnogaeth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd, mae nifer o ymchwiliadau 'cychwyn a gorffen' wedi eu cynnal yn 2015/16.

    <u>Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</u>
    <u>Pwyllgor Craffu Gwasanaethau</u>

    - Addysg Gymraeg - wedi ei gwblhau
    - Gwasanaethau Cefnogol Addysg - newydd ddechrau
    - O'r Ysbyty i'r Cartref
    - Alltwen – newydd ddechrau

    <u>Pwyllgor Craffu Cymunedau</u>

    - Digartrefedd - wedi cwblhau
    - Gorfodaeth Stryd - newydd ddechrau

<u>Pwyllgor Craffu Cymunedau</u>

- Digartrefedd - wedi cwblhau
- Gorfodaeth Stryd - newydd ddechrau

    <u>Pwyllgor Craffu Corfforaethol</u>

    - Trethi Tai Haf
    - Ymgysylltu – ar waith

DRAFT

## Ch. Cefnogaeth i'r holl aelodau – gweinyddol, ymarferol a datblygiadol

18. **Cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gwleidyddol –** Gweithredir cefnogaeth weinyddol i'r grwpiau gwleidyddol yn unol â phenderfyniad y cyngor ym mis Mai 2012, gyda'r tri grŵp mwyaf yn derbyn cefnogaeth weinyddol yn unol â'u maint.

19. **Gweinyddu, prosesu a thalu cyflogau a chostau teithio** – Gweinyddir, prosesir a thelir cyflogau a chostau teithio yn unol â chanllawiau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cyhoeddir gwybodaeth am gostau Aelodau ar y safle we yn flynyddol yn unol â'r gofynion. Mae'r canllawiau ar gyfer hawlio ar y wefan. Atgoffir yr aelodau o'r angen i gyflwyno cais bob mis yn unol â'r canllawiau.

20. **Adroddiadau blynyddol gan aelodau etholedig** – Rhaid i'r Cygnor wneud trefniadau i alluogi aelodau aetholedig i gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol, ond nid yw yn orfodol i unrhyw aelod baratoi adroddiad o'r fath yn gyfredol. Bydd yr aelodau yn cofio, fodd bynnag, fod y Cyngor wedi ymateb yn bositif i'r cwestiwn ynghylch gorfodaeth ar aelodau i gynhyrchu adroddiadau blynyddol fel rhan o ymgyngohriad diweddar.

    Bu cynnydd eto yn y nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014/15 (cyhoeddwyd Gorffennaf 2015), gyda 39 aelod wedi dewis gwneud hynny. Mae'r canllawiau ar gyfer cynhyrchu adroddiadau ar gyfer 2015/16 eisoes wedieu dosbarthu trwy *Rhaeadr.*

21. Rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant – Gan fod 2016/17 yn flwyddyn olaf cyn etholiadau Llywodraeth Leol, roeddem yn ymwybodol y byddai anghenion aelodau ar gyfer y rhaglen hyfforddiant ychydig yn wahanol. Ymgynghorwyd â swyddogion yn yr un modd ag arfer i sicrhau fod yr elfennau holl bwysig yn parhau i gael eu cynnwys ar y rhaglen hyfforddiant. Yn ychwanegol, cynhaliwyd sesiwn ymgynghori gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 22/03/2016 er mwyn ceisio eu barn ar lywio'r rhaglen ar gyfer eleni. Mae sylwadau y Pwyllgor wedi eu hymgorffori i'r rhaglen waith ar gyfer 2016/17.

    Mae presenoldeb ar y cyrsiau hyfforddiant yn parhau i fod yn bryder. Mae disgwyl i aelodau geisio mynychu sesiynau hyfforddiant er mwyn sicrhau fod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf gan fod newidiadau cyson mewn nifer o feysydd. Mae'n wir fod mynychu cyrsiau yn sialens i rai aelodau oherwydd ymrwymiadau gwaith ac yn y blaen, ac felly mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu wrthi'n datblygu dysgu dros y we, fydd, gyda gobaith, yn cynnig dull amgen i aelodau dderbyn hyfforddiant mewn modd hwylus ac i gynyddu cyfranogiad mewn hyfforddiant.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 22 Mawrth 2016 |
| PWNC | Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 |
| PWRPAS | Cyflwyno diweddariad o waith yr is-grwp amrywiaeth ynghyd ag amlinelliad o'r gwaith paratoi ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol 2017. |
| AWDURON | Arwel Ellis Jones<br>Uwch Reolwr (Democratiaeth a Chyflawni) |
| SWYDDOG PERTHNASOL | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

1. Gydag etholiadau Llywodraeth Leol ddim ond ychydig dros flwyddyn i ffwrdd, mae'n bwysig i'r Cyngor fod yn dechrau cynllunio ar gyfer nifer o wahanol ystyrieaethau yn ymwneud ag etholiadau Llywodraeth Leol 2017.

2. Mae aelodau'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol fod grŵp wedi ei sefydlu mewn ymateb i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol, oedd yn nodi bod diffyg amrywiaeth ymhlith aelodau etholedig Llywodraeth Leol, yn arbennig yn nhermau pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, yr anabl a merched.

<u>Gwaith yr is-grwp amrywiaeth</u>

3. Mae'r is-grwp eisoes wedi adrodd ar y graddau y mae corff aelodau etholedig Gwynedd yn adlewyrchu'r boblogaeth yn ei gyfanrwydd, gan nodi fod cryn wahaniaeth yn y niferoedd o ferched a phobl ifanc yn y sir o gymharu a'r niferoedd sy'n aelodau etholedig. Cyflwynwyd y rhaglen waith ddrafft i'r Pwyllgor hwn, ac mae aelodau o'r Grwp wedi cyflwyno a chodi ymwybyddiaeth i'r gwaith gyda'u cyd-aelodau yn y Fforymau Ardal yn ystod mis Mawrth 2017.

4. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi dangos ei gefnogaeth i'r prosiect hwn gan ei fod wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2016-2020, gyda'r uchelgais o gynyddu'r niferoedd o gefndiroedd llai cynrychioladol (pobl ifanc a merched) yn etholiad Llywodraeth Leol 2017.

5. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys nifer o wahanol ffactorau, ac yn eu mysg codi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd i ddemocratiaeth, beth mae'r Cyngor yn ei wneud a pha gyfleoedd sydd i gymeryd rhan, yn y gobaith o annog mwy o drigolion o wahanol gefndiroedd (pobl ifanc a merched yn benodol) i sefyll yn etholiadau Llywodrath Leol Mai 2017. Mae'r cynlluniau sydd ar y gweill i wneud hyn mewn modd a syml ond effeithiol trwy glipiau byr ar y we, a fyddai'n cael eu hyrwyddo yn aml trwy trydar a facebook.

6. Yn ogystal, yn dilyn ceisio codi'r ymwybyddiaeth yma, mae holiadur wedi ei lunio i geisio adnabod yr hyn sy'n rhwystro unigolion rhag sefyll, a chreu grwpiau ffocws i geisio dealltwriaeth llawnach o'r rhwystrau. Bydd hyn yn arwain at sefydlu rhaglen waith i ymteb i'r rhwystrau lle bo modd.

7. Yn cyd-fynd â'r gwaith uchod, mae cynlluniau penodol ar y gweill i baratoi ymgeiswyr posib at etholiadau Mai 2017. Wedi gwrando ar sylwadau nifer o aelodau etholedig sydd wedi

ymuno â'r Cyngor ers mis Mai 2012, neges glir sydd i'w chlywed yw nad oedd nifer yn llwyr ymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl yn dilyn llwyddiant wrth gael eu hethol.

Sesiynau Codi ymwybyddiaeth ymgeiswyr

8. Mewn ymateb i hyn, mae gwaith wrthi'n mynd rhagddo i ddatblygu sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer rhai sydd yn rhoi eu henwau ymlaen i SEFYLL yn yr etholiadau ym Mai 2017. Bydd hyn yn gyfle i ddarpar aelodau ystyried a deall y sefyllfa cyn iddynt gael eu hethol – gan geisio sicrhau gwell eglurder o'r cyfleonsydd ar gael iddynt, y gofynion arnynt, a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn dilyn etholiad llwyddiannus.

9. Y bwriad yw cynnal sesiynau sy'n amlinellu gwybodaeth ar y materion isod:

- Cyfrifoldebau'r Cyngor Sir,
- Rôl yr Aelod Lleol a'r rôl sefydliadol o fewn y Cyngor
- gofynion amser, gan gynnwys clywed profiadau aelod presennol,
- Natur dros dro'r Cyngor hyd at ad-drefnu
- Disgwyliadau a chefnogaeth o ran technoleg ayb.
- Trefn pwyllgorau'r Cyngor a chyflwyniad ar safonau ymddygiad aelodau,
- pwyntiau ymarferol o ran cyflogau a threuliau a'r broses etholiadol

Rhaglen Anwytho Aelodau etholedig yn dilyn etholaid Mai 2017.

10. Y cam naturiol yn dilyn etholiadau Mai 2017 fydd anwytho aelodau newydd. Unwaith eto, mae aelodau wedi rhannu eu profiad gyda ni ac wedi cynnig sylwadau am y sesiynau a gynhaliwyd yn ôl yn 2012, a beth arall fyddai wedi bod yn fuddiol iddynt. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio y sesiynau anwytho a'r sesiynau hyfforddiant dilynol, mewn modd synhwyrol a rhesymol gan ystyried sylwadau a dderbyniwyd ag ymgynghori gydag aelodau presenol. Er fod y cyfnod yn teimlo yn bell i ffwrdd, mae'n hanfodol fod y Cyngor yn dechrau ar y gwaith cynllunio yn awr.

Cyfarpar electroneg.

11. Yn yr un modd mae angen cychwyn ystyried yn awr beth yw/ fydd angehenion aelodau etholedig a'r Cyngor i'r dyfodol, gan ddechrau paratoi ac ystyried beth yw'r cyfarpar mwyaf addas i'w gynnig i aelodau yn dilyn etholiadau Mai 2017.

12. Mae'r gwaith paratoi sy'n digwydd o ran y sesiynau codi ymwybyddiaeth cyn etholiadau, adnabod y rhaglen anwytho a'r rhaglen hyfforddiant dilynol, ynghŷd â'r ystyriaethau electroneg yn faterion allweddol y bydd yn rhaid i'r Pwyllgor eu hystyried dros y misoedd nesaf. Rydym hefyd yn credu fod gwrando ar farn Aelodau etholedig oedd yn Aelodau newydd o gyfnod Mai 2012 ymlaen am ein cynorthwyo i ddatblygu yn well ar y materion hyn.

I'r perwyl hwn felly, gofynnir i'r Pwyllgor adnabod 4 neu 5 o Aelodau sy'n fodlon i ni ymgynghori â hwy ar y materion uchod wrth i'r datblygiadau fynd rhagddynt. Byddwn wedyn yn cyflwyno diweddariadau yn ộl i'r Pwyllgor maes o law.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| DYDDIAD | 22 Mawrth 2016 |
| PWNC | Technoleg Gwybodaeth i Aelodau Etholedig |
| PWRPAS | Cyflwyno diweddariad ar faterion technoleg gwybodaeth i'r Pwyllgor. |
| AWDURON | Arwel Ellis Jones<br>Uwch Reolwr (Democratiaeth a Chyflawni)<br>Huw Ynyr<br>Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth |
| SWYDDOG PERTHNASOL | Vera Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |

1. Trafodwyd nifer o elfennau yn ymwneud â Thechnoleg Gwybodaeth yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gwasanethau Democrataidd, ac isod cyflwynir diweddariad i'r Aelodau.

**Hyfforddiant Llechen**

2. Mae gwahoddiadau wedi eu gyrru i aelodau ddatgan diddordeb os ydynt yn dymuno hyfforddiant pellach ar sut i wneud gwell defnydd o'r ipad (yn dilyn y peilot llwyddiannus a gynhaliwyd yn 2015). Mae hyfforddiant ar lefel sylfaenol neu ar lefel uwch wedi ei gynnig, gyda nifer wedi datgan diddordeb. Mae'r sesiynau wedi eu trefnu ar gyfer
   - 22/04/2016 - sylfaenol
   - 28/04/2016 – lefel uwch

**Diweddariad ar dderbyn e-bost cynghoryddxx@gwynedd.gov.uk ar declynnau cludadwy**

3. Adroddodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth yn y cyfarfod diwethaf ei fod yn ceisio ymateb i'r rhwystredigaeth yr oedd nifer o aelodau yn ei deimlo gan nad oes posib yn gyfredol i "gysylltu" ebyst 'cynghorydd' i ffon personol aelod.

4. Rydym bellach wedi cael cadarnhad drwy drafodaethau gyda'n archwilwyr PSN/CESG y bydd yn bosib i ni gynnig gwasanaeth ble gall swyddogion ac aelodau etholedig dderbyn/gyrru e-bost swyddogol y Cyngor ar eu ffôn symudol. Mae'n amod ein bod yn gwneud hyn mewn ffordd diogel ac yn glynu at yr hyn a gytunwyd gyda'r archwilwyr.

5. Mae'r archwilwyr PSN/CESG yn fodlon i ni ddefnyddio'n meddalwedd rheoli teclynnau symudol (MDM – Mobile Device Management) ar gyfer diogelu'r gwasanaeth, sef y cynnyrch MobileIron. Mae defnyddio meddalwedd o'r math yma'n galluogi'r Desg Gymorth TG i reoli'r ffôn o bell petai angen, gan gynnwys dileu gwybodaeth oddi arno pe byddai'r perchennog yn hysbysu'r Ddesg Gymorth bod eu ffôn wedi ei golli/ddwyn. Byddwn yn defnyddio'r meddalwedd MDM i lawrlwytho "app" penodol ar gyfer e-byst y Cyngor, gan alluogi i swyddogion y Ddesg Gymorth ddileu'r "app" a'i gynnwys heb amharu ar unrhyw "apps" ac/neu ddata personol. Yn ychwanegol i'r newidiadau hyn, fe fyddai'n orfodol i'r defnyddiwr uwchraddio'u cyfrinair i safon priodol ar gyfer diogelu'r cyfarpar.

6. Fe fydd costau o £40 yn y flwyddyn gyntaf a £10 y flwyddyn wedi hyn ar gyfer y meddalwedd MDM. Cost y ddyfais yw hwn, ac felly fe fydd y cost yn codi os oes angen sefydlu'r gwasanaeth ar mwy nag un dyfais.

**Paratoi at etholiadau 2017**

7. Fel sydd yn cael ei adrodd yn yr adroddiad 'Etholiadau 2017', mae'n bryd cychwyn paratoi ar gyfer y cyfnod yn dilyn etholiadau 2017 yng nghyswllt darpariaeth electroneg addas. Mae'r byd yn un sy'n datblygu yn gyflwym, gyda nifer o wahanol ddyfeisiadau bellach ar y farchnad o gymharu â'r hyn oedd yn bodoli yn 2012. Bydd angen asesu beth yw/ fydd angehenion aelodau etholedig a'r Cyngor i'r dyfodol, pa ffactorau allanol all ddylanwadu, beth yw'r opsiynau ar y farchnad, a pha gyllideb sydd ar gael, er mwyn dechrau ystyried beth yw'r cyfarpar mwyaf addas i'w gynnig i aelodau yn dilyn etholiadau Mai 2017.

8. Bydd y mater yn cael sylw dros y misoedd nesaf fel bo amserlen synhwyrol mewn lle i gael penderfyniad ac archebu cyfarpar os oes angen.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH** |
| **DYDDIAD** | **22 MAWRTH, 2016** |
| **PWNC** | **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG** |
| **PWRPAS** | **Ceisio barn y Pwyllgor ar ddewisiadau gyda chydnabyddiaeth ariannol i aelodau etholedig** |
| **AWDUR** | **Arwel E Jones, Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni** |

**CEFNDIR**

1. Bydd aelodau yn cofio y bu ymgynghoriad dros y gaeaf ar gynigion drafft y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol aelodau etholedig ar gyfer y flwyddyn nesaf.

2. Erbyn hyn, cyhoeddwyd y cynigion terfynol. Dyma'r ddolen i'r dudalen lle mae modd canfod adroddiad y Panel Annibynnol.
http://gov.wales/irpwsub/home/publication/2016-17/irp-annual-report-2016-17/?skip=1&lang=cy

3. Fodd bynnag, dyma'r prif bwyntiau o sylwedd:-

a. Dim newid yn y cyflogau sylfaenol i drwch yr aelodau
b. Dim newid yn y cyflogau i'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd
c. Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Aelodau Cabinet ar un o ddwy lefel, Lefel 1, £29,000 (fel ar hyn o bryd) neu Lefel 2 (£26,100)
ch. Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar un o ddwy lefel, Lefel 1, £22,000 (fel ar hyn o bryd) neu Lefel 2 (£20,000)

**Y MATER SYDD GERBRON**

4. Mae dyfarniadau'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn rhwymo cynghorau i wneud y taliadau a bennir ganddynt. Yr unig ffordd arferol i beidio â gwneud y taliadau hynny yw i aelod unigol ddatgan nad yw am dderbyn y cyfan o'r taliadau.

5. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn wahanol gan bod gan y Cyngor yr hawl i wneud penderfyniadau ar bwyntiau 3c a 3ch uchod. Wrth wneud y penderfyniad, dylai'r Cyngor ystyried nid yn unig ar ba lefel i osod y swyddi gwahanol ond hefyd a oes lle i wahaniaethu rhwng y cyfrifoldebau gwahanol. O ran lefel y cyfrifoldebau sydd yn cael eu hysgwyddo gan Aelodau Cabinet gwahanol, dylid nodi ein bod wedi gwneud ymdrech fwriadol, fel Cyngor, i rannu cyfrifoldebau Cabinet mor gyfartal â phosib. Dylai'r Cyngor hefyd ystyried a oes gwahaniaeth yn y cyfrifoldebau a ysgwyddir gan y cadeiryddion pwyllgorau a nodir isod ac, yn wir, gadeiryddion rhai pwyllgorau eraill sydd ddim yn derbyn cydnabyddiaeth arbennig, fel y Pwyllgor Pensiynau, y Pwyllgor Iaith ac, yn wir, y Pwyllgor hwn.

6. Oherwydd yr asesiad cyfrifoldebau hynny, ar hyn o bryd, mae pob Aelod Cabinet ar Lefel 1 ac mae'r holl gadeiryddion pwyllgorau isod yn cael lefel uwch o daliad:-

- Pwyllgor Craffu (X3)
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cynllunio
- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Apelau Cyflogaeth

**PENDERFYNIAD**

7. Ceisir barn y pwyllgor er mwyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn, ynglyn â'r hyn y dylid ei dalu ym mlwyddyn olaf y Cyngor hwn, yn ei gyfarfod nesaf.